



SWYDD: GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL IECHYD A LLESIANT (PRESWYL) - 84 AWR Y MIS

CYNLLUN CARTREFU

Adran o Antur Waunfawr yw'r Cynllun Cartrefu sy'n darparu cartref i bobl ag anableddau dysgu, yng Nghaernarfon, Penygroes a Waunfawr. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau hamdden ac yn trefnu gwyliau a phenwythnosau i ffwrdd.

PRIF DDYLETSWYDDAU'R GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL (PRESWYL)

Datblygu'r unigolyn i'w llawn botensial drwy ddarparu cefnogaeth o safon uchel.

ATEBOLRWYDD A GOFYNION Y SWYDD

Yn y lle cyntaf i'r defnyddwyr ac yna i'r Is Reolwr Cynllun Cartrefu a thrwyddynt hwy i Reolwr y Cynllun Cartrefu, ac yn y pen draw i'r Brif Weithredwraig a Bwrdd y Cwmni. Bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd gyflawni ystod o ddyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd yr Is Reolwr/wraig Cynllun Cartrefu.

Bydd disgwyl iddo/hi gyflawni dyletswyddau ar ffurf rota sy'n cynnwys gweithio ar benwythnosau a bydd gofyn i'r deilydd ymgymryd â dyletswyddau cysgu mewn a rhoi cefnogaeth ar wyliau ym Mhrydain neu dramor.

SPEC. PERSON

SGILIAU ALLWEDDOL

- y gallu i wrando a chreu perthynas dda gyda defnyddwyr gwasanaeth
- y gallu i weithio ar ben ei hun ac fel rhan o dîm
- y gallu i annog y defnyddwyr i ehangu ei sgiliau
- y gallu i gofnodi manylion ariannol/personol yn fanwl a chywir

- sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg
- bod mewn cyflwr iechyd da, boed yn gorfforol neu feddyliol iach
- lefel da o ffitrwydd i gefnogi'r defnyddwyr ar weithgareddau hamdden
- y gallu i goginio prydau bwyd maethlon ac iach gan ddilyn canllawiau bwyta'n iach y cwmni
- gyrrwr/wraig a pherchennog car
- y gallu i fod yn hyblyg o fewn y swydd gan gynnwys gweithio gydag unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a/neu safle yn ôl y gofyn

CYMWYSTERAU A GWYBODAETH

- NVQ Lefel 2 mewn Gofal (disgwylir y deilydd i gyflawni'r cymhwyster o fewn 12 mis o gychwyn y swydd)
- Dealltwriaeth drylwyr ac ymrwymiad i hawliau'r defnyddwyr
- Dealltwriaeth o rôl a diwylliant y sector wirfoddol
- Byddai ddiddordeb mawr mewn chwaraeon o fantais, ee, cerdded mynyddoedd, beicio, chwaraeon dwr, cadw'n heini, nofio, merlota, ayb, a hefyd yr her ar awydd i drïo gweithgareddau eraill.
- Byddai profiad o wneud gweithgareddau megis gwaith crefft, arlunio a garddio hefyd o fantais
- Dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch o fantais

PROFIAD

- Byddai profiad o weithio yn y maes gofal o fantais

AGWEDD

- Agwedd bositif, hyblyg a dealltwriaeth o ddiwylliant Antur Waunfawr a'r Cynllun Cartrefu
- Sensitifrwydd a'r gallu i wrando ar ddyheadau'r defnyddwyr a chreu cartrefi braf

HYBLYGRWYDD

Tynnir eich sylw at y ffaith bod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallant newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan bo angen, cyfnewid o fewn y Cwmni er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithwyr.

DISGRIFIAD SWYDD – GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL IECHYD A LLESIANT (PRESWYL)

Cyflog - £15,268.50 y flwyddyn pro rata (£7.83 yr awr).

1. Sicrhau amgylchedd glân, cartrefol yn unol â dyheadau'r preswylwyr a safonau Antur Waunfawr, gan sicrhau bod y defnyddwyr yn cymryd rhan lawn mewn unrhyw benderfyniadau.
2. Cefnogi'r preswylwyr i baratoi prydau bwyd maethlon, i lanhau'r cartref a'u cefnogi ar weithgareddau hamdden o ddewis yr unigolyn.
3. Teithio gyda a chefnogi'r unigolyn i fynd ar wyliau a phenwythnosau i ffwrdd ym Mhrydain neu dramor.
4. Trefnu apwyntiadau ee, meddyg, optegydd, ayb ar ran yr unigolyn a'i eiddo. Cefnogi'r unigolyn i'r apwyntiadau hyn.
5. Sicrhau fod Cynllun Gofal bob unigolyn sy'n derbyn gofal yn cael ei gario allan. Bydd disgwyl i'r unigolyn cael cymryd gymaint o gyfrifoldeb a phosib dros eu gofal personol. Disgwylir cadw safon uchel o lendid personol a sicrhau bwyd maethlon.
6. Trafod unrhyw newidiadau yng Nghynlluniau Gofal y defnyddwyr gyda'r Is Reolwr/wraig Cynllun Cartrefu er mwyn ei addasu i ateb newidiadau mewn cyflwr unigolion. Os fydd anghenion gofal personol yn datblygu efallai y bydd disgwyl i'r staff weithio efo staff o asiantaethau allanol hefyd.
7. Meithrin perthynas dda gyda chymdogion, y gymuned leol, teuluoedd a ffrindiau
8. Sicrhau fod systemau cofnodi, dosbarthu meddyginiaeth yn cael ei gyflawni'n briodol.
9. Unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais yr unigolyn, Is Reolwr/wraig neu Reolwr y Cynllun Cartrefu.